# Y Pry Copyn Swil

Ymddiriedaeth / Gostyngeiddrwydd

Yng nghornel yr ystafell fyw roedd Pwtyn Pry Copyn yn byw. Bob dydd byddai gwraig y tŷ yn glanhau pob twll a chornel yn y tŷ. Bob nos byddai Pwtyn yn nyddu gwe newydd. Doedd Pwtyn ddim yn sicr pam oedd yn nyddu gwe. Doedd Pwtyn byth yn dal pryfed yn ei we. Doedd o ddim yn gwybod beth oedd pryfed. Doedd o erioed wedi gweld pry bach. Byddai Pwtyn yn byw ar friwsion oedd y plant yn eu gadael ar y cadeiriau. Ar ôl i'r plant fynd i'w gwely byddai Pwtyn yn dod i lawr o'i barlwr yng nghornel yr ystafell fyw.

Un bore, braf poeth, gwelodd Pwtyn greadur rhyfedd iawn. Roedd yn ddu, chwe coes a phâr o adenydd. Ar ei ben roedd dau bigyn main a dau lygaid mawr, mawr. Beth ar wyneb y ddaear oedd y creadur rhyfedd yma. Roedd o'n sownd yn ei we. Roedd y we yn gwneud sŵn mawr, mawr. Daeth Pwtyn allan o'i barlwr yng nghornel yr ystafell fyw. Cerddodd ar draws y we at y creadur oedd yn gwneud y sŵn rhyfedd yma. Dychrynodd Pwtyn am ei fywyd. Diolch bod y we yn ludiog neu buasai wedi syrthio i ffwrdd. Doedd Pwtyn ddim am fynd yn rhy agos at y creadur.

"Wnei di ddim niwed i mi? Pry Copyn bach diniwed ydw i . Paid â gwneud y sŵn byddarol yna mae'n codi braw arna i. Beth wyt ti? Dydw i erioed wedi gweld creadur tebyg i ti o'r blaen." meddai Pwtyn.

Doedd y pry bach erioed wedi clywed geiriau tebyg gan bry copyn. "Pry bach ydw i . Rwyt ti y pry copyn rhyfeddaf rydw i wedi weld yn fy mywyd," meddai. "Pam felly?" gofynnodd Pwtyn eto.

"Pry bach ydw i , a phry copyn wyt ti," esboniodd y pry bach.

"Ie" meddai Pwtyn.

"Wel, mae pryfed cop yn bwyta pryfed bach fel fi. Dydw i ddim ofn o gwbl," meddai'r pry bach, "wnei di geisio fy helpu i ddod o'r we ludiog yma?"

Dechreuodd Pwtyn ysgwyd ei goesau. Pob un ohonyn nhw. Cofiwch roedd ganddo wyth o goesau i gyd.
“Mae’n siŵr mod i dy ofn di am nad oeddwn wedi gweld pry bach yn fy mywyd o’r blaen. Dydw i ddim yn meddwl ei bod hi’n beth drwg i fod ofn weithiau, yn enwedig pethau nad ydych wedi eu gweld erioed o’r blaen. Ond o hyn ymlaen fyddai i byth ofn pry bach eto.”
Edrychodd Pwtyn ar y pry bach ac yn sydyn dyma fo’n ei fwyta.

O Dduw, ein Tad, dysg ni i ymddiried ynot ti pan fyddwn ni ofn. Amen.

- Fyddwch chi ofn pethau nad ydych wedi eu gweld o’r blaen?
- Ydych chi’n cofio eich diwrnod cyntaf yn yr ysgol? Oeddech chi ofn y diwrnod hwnnw?
- Ydych chi’n credu fod y stori hon yn gorffen yn hapus? Pam?